

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mesur Addysg Senedd y Deyrnas Unedig: Ddarpariaethau ynglŷn â Chymru

Chwefror 2011

Cafodd y Mesur Addysg ei gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig gan y Gwir Anrh. Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ar 26 Ionawr 2011.

At Loegr yn unig y mae'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Mesur yn cyfeirio, ond mae'n cynnwys hefyd nifer o ddarpariaethau sy'n cyfeirio at Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau fframwaith a fyddai'n ymestyn pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â safonau proffesiynol athrawon a chyllido addysg a hyfforddiant cyn-16 oed. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag agweddau ar addysg yng Nghymru, gan gynnwys pwerau dros gyllid i fyfyrwyr.

Mae'r papur hwn yn cynnig arweiniad i holl ddarpariaethau Cymreig y Mesur.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafeal ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mesur Addysg Senedd y Deyrnas Unedig:
Darpariaethau ynglŷn â Chymru

Chwefror 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/011



Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi cefndir y [Mesur Addysg](#), a gafodd ei gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig gan y Gwir Anrh. Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ar 26 Ionawr 2011. **Trafodir y Mesur gan Dŷ'r Cyffredin yn ystod y ddadl ar ei Ail Ddarlleniad ar 8 Chwefror 2011.**

Bwriad prif elfennau'r Mesur yw:

- **Cynyddu awdurdod athrawon i ddisgyblu disgyblion** a sicrhau ymddygiad da, gyda phŵer cyffredinol i chwilio disgyblion am eitemau a waharddwyd o dan reolau'r ysgol, y gallu i gadw disgyblion ar yr un diwrnod ac i aros yn ddiennw cyn cyhuddiad yn wyneb honiad disgybl o dramgwydd troseddol;
- **Dileu dyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol gan roi mwy o ryddid iddyn nhw** benderfynu ar sut i gyflawni eu swyddogaethau;
- **Ymestyn y rhaglen Academiau** drwy gyflwyno Academiau i bobl ifanc 16 i 19 oed ac Academiau sy'n cynnig darpariaeth amgen;
- Newid atebolrwydd ysgolion, gydag **arolygiadau mwy pendant gan Ofsted a phwerau ehangach i ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio**;
- **Dileu pum corff hyd-braich**,¹ gan derfynu llawer o'u swyddogaethau a threfnu i'r swyddogaethau sy'n parhau gael eu cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn ateb amdanynt yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig;
- Gwneud darpariaeth i wireddu cynigion i **gynyddu rhyddid colegau** a newid yr hawliau sgiliau;
- Galluogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno **hawl i blant difreintiedig dwy oed gael darpariaeth y blynyddoedd cynnar am ddim**; a
- Bwrw ymlaen â dwy elfen o ymateb y Llywodraeth i [Adolygiad Browne: Securing a sustainable future for higher education in England](#), **gan ganiatáu codi cyfradd llog real ar fenthyciadau i fyfyrwyr addysg uwch a chapio ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser i israddedigion.**

Mae'r Mesur hefyd yn ychwanegu at swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac yn cynnwys pwerau fframwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n anelu at ymestyn ei gymhwysedd deddfwriaethol o ran y canlynol:

- **Safonau proffesiynol athrawon ac eraill**; a
- **Chyllido addysg a hyfforddiant cyn-16.**

Mae'r papur hwn yn cynnig arweiniad i holl ddarpariaethau Cymreig y Mesur.

¹ Sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE), yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA), Corff Negodi Staff Cymorth yr Ysgolion (SSSNB), Asiantaeth Datblygu Cymwysterau a'r Cwricwlwm (QCDA) ac Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc Lloegr (YPLA).

Cynnwys

1. Rhagymadrodd.....	1
2. Y Mesur.....	3
3. Darpariaethau i Gymru: pwerau fframwaith.....	6
3.1. Materion 5.15A a 5.15B.....	7
3.2. Mater 5.15C.....	9
3.3. Diwygio Materion 5.15 (c) a 5.16 (c)	9
3.4. Mater 5.6A.....	10
4. Pwerau i Weinidogion Cymru	11
4.1. Diddymu cyrff hyd-braich	11
4.2. Darpariaethau byrddio mewn ysgolion a cholegau	11
4.3. Cyllid myfyrwyr	11
5. Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011	12

Y Mesur Addysg

1. Rhagymadrodd

Cafodd y [Mesur Addysg](#) (“y Mesur”) ei gyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, y Gwir Anrh. Michael Gove AS, ar 26 Chwefror 2011. Cafodd ei gyhoeddi i ddechrau fel y *Mesur Addysg a Phlant* yn Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010 ac mae’n bwrw ymlaen â’r cynigion deddfu a gynhwyswyd yn y Papur Gwyn ar Ysgolion, [The Importance of Teaching](#), a mesurau gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i wella sgiliau, gan gynnwys elfennau o’r diwygiadau ar gyllid addysg uwch.

Yn ôl yr hysbysiad i’r wasg a gafwyd pan gyflwynwyd y Mesur, mae’n “important step in implementing the Government’s education reform programme and helping to create an education system that delivers ever higher standards for all children”.²

Bwriad prif elfennau’r Mesur yw:

- **Cynyddu awdurdod athrawon i ddisgyblu disgyblion** a sicrhau ymddygiad da, gyda phŵer cyffredinol i chwilio disgyblion am eitemau a waharddwyd o dan reolau’r ysgol, y gallu i gadw disgyblion ar yr un diwrnod ac i aros yn ddiennw cyn cyhuddiad yn wyneb honiad disgybl o dramgwydd troseddol;
- **Dileu dyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol gan roi mwy o ryddid iddyn nhw** benderfynu ar sut i gyflawni eu swyddogaethau;
- **Ymestyn y rhaglen Academiâu** drwy gyflwyno Academiâu i bobl ifanc 16 i 19 oed ac Academiâu sy’n cynnig darpariaeth amgen;
- Newid atebolrwydd ysgolion, gydag **arolygiadau mwy pendant gan Ofsted a phwerau ehangach i ymyrryd mewn ysgolion sy’n tanberfformio**;
- **Dileu pum corff hyd-braich**,³ gan derfynu llawer o’u swyddogaethau a threfnu i’r swyddogaethau sydd i barhau gael eu cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn ateb ynglŷn â nhw yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig;
- Gwneud darpariaeth i wireddu cynigion i **gynyddu rhyddid colegau** a newid yr hawliau sgiliau;
- Galluogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno **hawl i blant difreintiedig dwy oed gael darpariaeth y blynyddoedd cynnar am ddim**; a
- Bwrw ymlaen â dwy elfen o ymateb y Llywodraeth i [Adolygiad Browne: Securing a sustainable future for higher education in England](#), gan ganiatáu

² [Hysbysiad i’r Wasg gan yr Adran Addysg, The Education Bill, 27 Ionawr 2011 \[wedi’i gyrchu 28 Ionawr 2011\]](#)

³ Sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE), yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA), Corff Negodi Staff Cymorth yr Ysgolion (SSSNB), Asiantaeth Datblygu Cymwysterau a’r Cwricwlwm (QCDA) ac Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc Lloegr (YPLA).

codi cyfradd llog real ar fenthyciadau i fyfyrwyr addysg uwch a chapio ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser i israddedigion.

O ran Cymru, mae'r Mesur yn ceisio cynnwys pedwar Mater newydd yn Maes 5 (Addysg) o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*⁴ ("Deddf 2006") a fydd yn rhoi pwerau deddfu ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y meysydd a ganlyn:

- **Mater 5.15A:** Safonau proffesiynol – gan gynnwys hyfforddi, datblygu proffesiynol, rholi perfformiad a chymwysterau;
- **Mater 5.15B:** Ymddygiad proffesiynol, recriwtio, achosion disgyblu, cofrestru a lefelau angenrheidiol iechyd a ffitrwydd athrawon a'r gweithlu addysg ehangach;
- **Mater 5.15C:** Achredu darparwyr hyfforddiant i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach; a
- **Mater 5.6A:** Cyllid i addysg neu hyfforddiant cyn-16 oed yng Nghymru.

Mae'r Mesur hefyd yn diwygio Materion 5.15(c) a 5.16(c) i ymestyn pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys hyfforddiant yr holl bersonau a restrir ym Mater 5.15A, ac nid dim ond hyfforddiant athrawon a chynorthwyrwyr dysgu arbenigol i ysgolion.

Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyllid i fyfyrwyr a darpariaethau ynghylch byrddio mewn ysgolion a cholegau. Mae swyddogaethau ychwanegol yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru hefyd yn sgil dileu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE) a'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA).

Gan fod y Mesur yn gwneud darpariaethau sydd o fewn y meysydd y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol ac y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol ynddyn nhw, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol⁵ ynglŷn â'r Cymalau yn y Mesur sy'n cyfeirio at Gymru.⁶

Bydd y papur hwn yn amlinellu'r pwerau deddfu sy'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r swyddogaethau gweithredol a roddir i Weinidogion Cymru yn y Mesur.

⁴ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#)

⁵ Mae rhagor o wybodaeth am gynigion cydsyniad deddfwriaethol ar gael yn [Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol](#).

⁶ [Yr Adran Addysg, Education Bill: Explanatory Notes, 26 Ionawr 2011, paragraff 56 \[wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011\]](#)

2. Y Mesur

At Lloegr yn unig y mae'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Mesur yn cyfeirio, ond mae rhai cymalau'n cyfeirio at Gymru, at Gymru a Lloegr ac at y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r adran hon yn crynhoi'r cymalau hynny.

Nid yw **Rhannau 1 a 2** o'r Mesur, sy'n ymwneud â Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a Disgyblaeth, yn gymwys i Gymru.

Rhan 3: Gweithlu'r Ysgolion

Mae'r rhan hon o'r Mesur yn dileu tri chorff hyd-braich – y [GTCE](#), y [TDA](#) a [Chorff Negodi Staff Cymorth yr Ysgolion](#) (SSSNB). Mae'n darparu hefyd i **swyddogaethau perthnasol y GTCE a'r TDA gael eu cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol a, lle bo'n briodol, gan Weinidogion Cymru.**

Mae **Cymal 11** yn rhoi ei heffaith i Atodlen 2 i'r Mesur sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau Seneddol eraill, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, yn sgil diddymu'r GTCE. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae hyn yn ehangu **“the powers that Welsh Ministers have to share information with the General Teaching Council for Wales (GTCW)”**.⁷

Mae **Cymal 13** yn ymdrin ag amddiffyn hawl athrawon i aros yn ddiennw a hynny drwy osod tair adran newydd yn *Neddf Addysg 2002*⁸ er mwyn **cyfyngu ar adroddiadau ar honiadau bod athrawon yng Nghymru a Lloegr wedi cyflawni tramgwyddau**. Mae'r adrannau newydd hyn yn cyfyngu ar gyhoeddi unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod athro neu athrawes sy'n destun honiad ynglŷn â chamymddygiad a fyddai'n gyfystyr â thramgwydd troseddol os yw dioddefwr honedig y tramgwydd yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

Mae **Cymalau 14 i 17** yn ymdrin â diddymu'r TDA, ac mae'n sicrhau, o ran Cymru, **fod gan Gweinidogion Cymru yr un pwerau, a'u bod yn dod o dan yr un cyfyngiadau, ag o'r blaen drwy'r TDA.**

Nid yw **Rhan 4** o'r Mesur, sy'n ymwneud â Chymwysterau ac sy'n diddymu [Awdurdod Datblygu Cymwysterau a'r Cwricwlwm](#) (QCDA), yn gymwys i Gymru.

Rhan 5: Sefydliadau Addysgol: Darpariaethau eraill

Mae'r rhan hon yn diddymu dyletswyddau penodol sydd gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac yn diddymu dyletswydd ar awdurdodau lleol i benodi partner gwella ysgol ym mhob ysgol a gynhelir. Mae hefyd yn darparu ar gyfer newidiadau yn y fframwaith arolygu ysgolion.

⁷ [Yr Adran Addysg, Education Bill: Explanatory Notes, 26 Ionawr 2011, paragraff 53 \[Wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011\]](#)

⁸ [Deddf Addysg 2002 \(p.32\)](#)

Mae **Cymal 42** yn gwneud yr un newid i'r diffiniad o ddarpariaeth fyrddio yng Nghymru ag yn Lloegr, ond mae'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â Chymru. Yn benodol, **mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i bennu a yw lles plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hybu'n ddigonol tra bo'n cael llety gan ysgol neu goleg yng Nghymru.**

Mae **Cymal 44** i bob pwrpas yn adfer **Adran 409 o Ddeddf Addysg 1996**⁹ yng Nghymru a'i diddymu yn Lloegr. Mae'r Adran hon yn darparu i'r awdurdodau lleol ystyried cwynion am y cwricwlwm a chafodd ei diddymu drwy gamgymeriad ar gyfer Cymru a Lloegr gan *Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*.¹⁰

Mae **Cymal 47** yn gwneud newidiadau i *Ddeddf Addysg 1996*, sy'n ymdrin â thaliadau y caniateir i ysgolion a gynhelir eu codi am "ychwanegiadau dewisol" a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r Ddeddf hon yn gymwys yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw **Rhan 6** o'r Mesur, sy'n ymwneud ag Academiâu, yn gymwys i Gymru.

Rhan 7: Addysg a Hyfforddiant ôl-16

Mae'r rhan hon yn diddymu corff hyd-braich arall, sef [Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc Lloegr](#) (YPLA); mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau perthnasol yr YPLA i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan roi'r pwerau y mae eu hangen i wneud cynlluniau i drosglwyddo staff o'r corff hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae **Cymal 62** yn diddymu'r darpariaethau yn *Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009* a sefydlodd yr YPLA. Mae'r Cymal yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Rhan 8: Cyllid Myfyrwyr

Mae'r rhan hon yn cynnwys mesurau sy'n ffurfio rhan o becyn o ddiwygiadau mewn addysg uwch yn Lloegr a gyhoeddwyd gan y Gwir Anrh. David Willetts AS, y Gweinidog dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth, mewn datganiad llafar yn Nhŷ'r Cyffredin ar [3 Tachwedd 2010](#) ac a fireiniwyd wedyn mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gwir Anrh. Vince Cable AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, ar [8 Rhagfyr 2010](#). Bydd yn cymhwyso'r cap ar ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau amser-llawn ar sail pro rata at gyrsiau rhan-amser, ac mae'n cynyddu'r cap ar y cyfraddau llog y caniateir eu codi ar fenthyciadau newydd i fyfyrwyr yn Lloegr.

Mae **Cymal 70** yn rhoi'r un **pwerau ynghylch cyfraddau llog ar fenthyciadau myfyrwyr** i Weinidogion Cymru ag y mae'n eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr.

⁹ [Deddf Addysg 1996 \(p.56\)](#)

¹⁰ [Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 \(p.22\)](#)

Mae **Cymal 71** yn rhoi'r un **pwerau ynghylch ffioedd cyrsiau i fyfyrwyr rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch** i Weinidogion Cymru ag y mae'n eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr.

Rhan 9: Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae **Cymalau 72 a 73** yn rhoi **pwerau fframwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â safonau proffesiynol i'r gweithlu ysgolion, rheoleiddio'r gweithlu ysgolion, a recriwtio a hyfforddi'r gweithlu ysgolion; ac mewn perthynas â chyllido addysg a hyfforddiant cyn-16**. Trafodir y rhain yn llawnach isod.

Mae rhagor o ddiwygiadau i Faterion 5.15 a 5.16 o ran hyfforddiant yn cael eu gwneud gan **Gymalau 72(2) a 72(4)**.

Mae pob cymal yn **Rhan 10** o'r Mesur yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn ymdrin â materion cyffredinol, technegol i raddau helaeth, megis darpariaeth ariannol a manylion pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau.

3. Darpariaethau i Gymru: pwerau fframwaith

Mae'r Mesur yn diwygio Atodlen 5 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ym Maes 5 (Addysg) i gynnwys pedwar mater newydd:

Matter 5.15A

The professional standards (including training, professional development, performance management and qualifications) required of—

- (a) teachers and other persons who work in schools;
- (b) teachers and other persons who work in relevant independent educational institutions;
- (c) teachers and other persons who work in institutions concerned with the provision of further education;
- (d) persons involved in the provision of pre-16 education or training or post-16 education or training, other than in schools, relevant independent educational institutions or institutions concerned with the provision of further education;
- (e) persons involved in the provision of services of the kinds mentioned in matter 5.8.

Matter 5.15B

The following, in relation to the persons listed in matter 5.15A—

- (a) professional conduct;
- (b) recruitment;
- (c) disciplinary proceedings;
- (d) registration;
- (e) required levels of health and fitness.

Matter 5.15C

The accreditation and funding of providers of training for persons listed in matter 5.15A.

Matter 5.6A

Funding of pre-16 education or training.

Mae Cymal 72(2) hefyd yn diwygio Mater 5.15 drwy gynnwys is-adran (c) newydd sy'n ymestyn pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys hyfforddiant yr holl bersonau a restrir ym Mater 5.15A mewn perthynas ag arolygiadau. Mae gwelliant tebyg yn cael ei wneud i Fater 5.16 gan Gymal 72(4), sy'n ymestyn pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys hyfforddiant yr holl bersonau a restrir ym Mater 5.15A mewn perthynas â darparu cyngor a gwybodaeth

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 27 Ionawr 2011, dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau "mewn perthynas â rheoleiddio a hyfforddi

athrawon a'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru a Chyllid Ysgolion Cyn-16" drwy'r Mesur.¹¹

Ychwanegodd y Gweinidog:

Byddai darpariaeth o'r fath yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynigion deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r materion a amlinellir yn yr adolygiad safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol, ac yn caniatáu hyblygrwydd llawn o ran rhoi'r cynigion hyn ar waith.

Yn unol â gweddill Maes 5 yn Atodlen 5, byddai'r pŵer gwneud Mesurau ar gyfer addysg neu hyfforddiant cyn-16 yn galluogi'r Cynulliad i gymeradwyo Mesur y Cynulliad a fyddai'n creu modelau eraill o gyllid llywodraeth ar gyfer addysg yn y dyfodol. Mae'n cwmpasu ariannu unrhyw un neu bob un o swyddogaethau addysg cyn-16 awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru neu gyrff llywodraethu.¹²

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Femorandwm hefyd ar 27 Ionawr 2011 yn nodi'n fanwl y rhesymeg y tu ôl i'r pwerau deddfu a geisir drwy gyfrwng y Mesur. Mae'r Memorandwm hefyd yn rhoi enghreifftiau o feysydd y gallai Llywodraeth Cymru roi sylw iddyn nhw, o gael y pwerau ychwanegol hyn i ddeddfu. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

3.1. *Materion 5.15A a 5.15B*

Byddai Mater 5.15A yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu mewn perthynas â'r safonau proffesiynol angenrheidiol i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach. Mae Mater 5.15B yn rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol, recriwtio, achosion disgyblu, cofrestru a lefelau iechyd a ffitrwydd angenrheidiol athrawon a'r gweithlu addysg ehangach.

Yn ôl y Memorandwm, gallai'r pwerau hyn "alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i'r materion a nodwyd ei hadolygiad o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol, a chaniatáu'r hyblygrwydd mwyaf i weithredu ar yr argymhellion".¹³ Yn ychwanegol, fe fydden nhw hefyd "yn galluogi gwneud darpariaeth i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hymrwymiad o dan *Cymru'n Un* i ddatblygu strwythur cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth".¹⁴

Byddai'r pwerau hyn hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i "ddatblygu un system drosfwaol syml a chyson ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru"¹⁵ sef

¹¹ Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig ar Bwerau Gwneud Mesurau ynghylch y Mesur Addysg*, 27 Ionawr 2011

¹² Ibid

¹³ Ibid, paragraff 25

¹⁴ Ibid, paragraff 26

¹⁵ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y darpariaethau fframwaith ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Ionawr 2011, paragraff 16

system a fyddai'n cynnwys "continwmm o safonau proffesiynol a fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol, a atgyfnerthir gan drefniadau cadarn i reoli perfformiad".¹⁶

Yn benodol, mae'r Memorandwm yn datgan y byddai'r pwerau a gâi eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Faterion 5.15A a 5.15B:

... yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn gwneud newidiadau i'r CyngACC. Gellid estyn ei gylch gwaith, newid ei gyfansoddiad, ei ddiddymu a gosod corff arall neu gyrff eraill yn ei le, neu roi swyddogaethau pellach i'r CyngACC, na fyddent o anghenraid yn gyfyngedig i athrawon. Gallai deddfwriaeth o'r fath sefydlu corff neu gyrff newydd i ymgymryd â chofrestru neu swyddogaethau eraill neu ymgymryd â threfn newydd o gofrestru.¹⁷

Yn sgil cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ym mis Mehefin 2010 y câi'r GTCE ei ddiddymu yn Lloegr, mae'r Gweinidog wedi rhoi gwybodaeth am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran CyngACC yng Nghymru. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Jenny Randerson AC ar 27 Medi 2010, dywedodd y Gweinidog:

Ym mis Mehefin 2010 cyhoeddodd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Addysg, ei fwriad i ddiddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Nid yw'r hyn a awgrymir ar gyfer Lloegr o reidrwydd yn iawn i Gymru ac rwyf wedi bod yn ystyried fy sefyllfa. Fy mwriad yw ceisio datganoli pwerau i benderfynu ar ddyfodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.¹⁸

Mewn ymateb ychwanegol i gwestiwn llafar gan Peter Black AC ar 1 Rhagfyr 2010, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n ceisio pwerau a fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw i ddyfodol CyngACC:

I am seeking framework powers that would allow us to determine the future of GTCW; the options for the future range from its abolition to the possible expansion of its role in further areas, such as the wider education workforce. A variety of views about the GTCW are held by the different teaching unions.¹⁹

Serch hynny, mae Memorandwm Llywodraeth Cymru'n datgan nad oes yna gynlluniau i ddiddymu CyngACC "hyd nes bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori'n llawn ynghylch rôl a chylch gwaith y Cyngor yn y dyfodol a'r angen i'w gadw".²⁰

¹⁶ Ibid

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y darpariaethau fframwaith ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Ionawr 2011

¹⁸ [WAQ56347, Jenny Randerson i Leighton Andrews \(Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes\), Cofnod y Trafodion, t2, 18 Awst 2010 \[wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011\]](#)

¹⁹ [Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2010 \[wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011\]](#)

²⁰ Ibid

3.2. *Mater 5.15C*

Mae Mater 5.1C yn ceisio darparu pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag achredu darparwyr hyfforddiant i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach, yn ogystal â chyllido hyfforddiant. Yn ôl y Memorandwm:

Yn ogystal â chynnwys y system bresennol o achredu darparwyr gan CCAUC ar sail criteria a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, byddai'r Mater hwn yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i achredu darparwyr, neu ganiatáu i bersonau eraill eu hachredu; neu gellid ehangu cwmpas y ddarpariaeth yn y dyfodol, er enghraifft drwy ystyried canoli hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgolion.²¹

Mae'r Memorandwm hefyd yn cadarnhau y byddai'r pwerau ym Mater 5.15C hefyd yn "galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i gryfhau neu ehangu pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r modd y mae CCAUC yn cyllido hyfforddiant cychwynnol athrawon, neu ddarparu ar gyfer trefn wahanol o gyllido hyfforddiant".²²

3.3. *Diwygio Materion 5.15 (c) a 5.16 (c)*

Mae Cymalau 72(2) a 72(4) o'r Mesur yn ceisio diwygio Materion 5.15(c) a 5.16(c) i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu fel y gallai Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch arolygu hyfforddiant ar gyfer y gweithlu ysgolion a'r gweithlu addysg ehangach, a darparu cyngor a gwybodaeth a chynnal astudiaethau ynglŷn â hynny.

Yn ôl y Memorandwm, byddai'r pwerau ym Mater 5.15B, ynghyd â'r diwygiadau a gynigiwyd i fater 5.16(c) yn rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â hybu gyrfaedd yn y gweithlu ysgol ac yn y gweithlu addysg ehangach.²³ Byddai hynny'n caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu:

... i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymgymryd â hyrwyddo gyrfaedd mewn ysgolion ac yn y gweithlu addysgol ehangach, neu i berson neu gorff arall ymgymryd â hyrwyddo gyrfaedd yn y gweithlu ysgolion, neu ar gyfer sefydlu corff newydd i wneud hynny. Byddai hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi grantiau ar gael i unrhyw berson sy'n hyrwyddo gyrfaedd mewn ysgolion ac yn y gweithlu addysgol ehangach.²⁴

Yn ôl y Memorandwm, diben y pwerau hyn yn rhannol "yw galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn ymateb i ddiddymu'r TDA".²⁵

²¹ Ibid, paragraff 27

²² Ibid, paragraff 281

²³ Ibid, paragraff 30

²⁴ Ibid, paragraff 31

²⁵ Ibid, paragraff 32

3.4. Mater 5.6A

Mae Mater 5.6A yn ceisio rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chyllido addysg neu hyfforddiant cyn-16 oed yng Nghymru. Yn ôl y Memorandwm, bydd y pŵer hwn ynghyd â'r pwerau deddfu sydd eisoes ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Atodlen 5 i Ddeddf 2006:

... yn galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur Cynulliad a fyddai'n sefydlu dulliau eraill o gyllido addysg gan y Llywodraeth yn y dyfodol. Mae'n cwmpasu cyllido unrhyw rai neu'r cyfan o swyddogaethau addysg cyn-16 yr awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru, neu'r cyrff llywodraethu.²⁶

Mae'r Memorandwm yn ychwanegu hyn:

Byddai modd i Lywodraeth y Cynulliad gynnig deddfwriaeth a fyddai'n cynnwys cyllido ysgolion annibynnol yng Nghymru (hwyrach drwy gyfrwng pŵer i roi grantiau), pe bai o'r farn mai dyna fyddai'r ffordd orau i fodloni unrhyw angen penodol ynglŷn ag addysg cyn-16.²⁷

²⁶ Ibid, paragraff 42

²⁷ Ibid

4. Pwerau i Weinidogion Cymru

Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n gymwys i Gymru a Lloegr ac sy'n newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

4.1. *Diddymu cyrff hyd-braich*

Mae'r Mesur yn gwneud darpariaethau canlyniadol ynglŷn â swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn sgil diddymiad arfaethedig y GTCE a'r TDA yn Lloegr. Yn benodol, mae'r Mesur yn darparu bod swyddogaethau perthnasol y cyrff hyn i'w cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol a, lle bo'n briodol, gan Weinidogion Cymru.

4.2. *Darpariaethau byrddio mewn ysgolion a cholegau*

Mae Cymal 42 o'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gymryd camau i bennu a yw lles plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hybu yn ddigonol tra bo'n cael llety gan ysgol neu goleg yng Nghymru.

4.3. *Cyllid myfyrwyr*

Mae'r Mesur yn rhoi'r un pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru ag a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr mewn perthynas â gosod cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr. Yn ymarferol, mae hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i osod cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr sy'n dechrau eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 drwy reoliadau, ar yr amod nad yw'r cyfraddau yn fwy na'r rhai sy'n fasnachol ddichonadwy.

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r un pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru ag a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr mewn perthynas â ffioedd cyrsiau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio cyfundrefn o gapio'r symiau y caiff sefydliadau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch eu codi ar fyfyrwyr rhan-amser, fel y gellir ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â myfyrwyr amser-llawn.

5. Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Mae taith y Mesur yn cyd-ddigwydd â'r refferendwm ynghylch a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael rhagor o bwerau i ddeddfu, sydd i'w gynnal ar 3 Mawrth 2011.²⁸

Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru'n esbonio nad yw'r materion sydd wedi'u rhestru yn y pwerau fframwaith yn y Mesur wedi cael eu nodi yr un mor fanwl yn Atodlen 7 ond eu bod eisoes yn syrthio o fewn y pynciau ehangach ym mharagraff 5 o Ran 1 o'r Atodlen honno, sy'n cynnwys "education, vocational, social and physical training".²⁹

Mae'r Memorandwm yn ychwanegu hyn:

O ganlyniad, pe digwyddai pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm (y disgwylir ei gynnal ar 3 Mawrth 2011), byddai modd i'r Cynulliad ddeddfu ynglŷn â'r materion hyn. Ond pe digwyddai pleidlais nacael, byddai'r drefn bresennol yn parhau, a gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad fesul achos unigol, drwy gyfrwng pwerau fframwaith mewn Deddfau Seneddol a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCDau) o dan adran 95 o Ddeddf 2006. Os gwireddir y senario hwnnw, byddai'r pwerau fframwaith yn y Mesur hwn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y meysydd penodol o reoleiddio athrawon a'r gweithlu addysgol ehangach yng Nghymru a chyllido'r system addysg cyn-16 yng Nghymru.³⁰

²⁸ Mae rhagor o wybodaeth am y refferendwm ar gael ym [Mhapur Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011](#).

²⁹ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y darpariaethau fframwaith ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Ionawr 2011, paragraff 4

³⁰ *Ibid*, paragraff 5